enghraifft efallai yr hoffai gael bwrdd mawr neu gadeiriau mewn cylch. Efallai bydd yn dewis cael cerddoriaeth neu luniaeth, megis ei hoff fisgedi, yn yr adolygiad.

Bydd hwylusydd hefyd yn bresennol i arwain yr adolygiad. Bydd yr hwylusydd yn sicrhau bod barn pawb yn cael ei chlywed.

Bydd y cyfarfod yn dechrau gyda phawb yn cyflwyno'u hunain ac yn rhannu'r hyn maent yn ei hoffi a'i edmygu am eich plentyn.

Bydd yr hwylusydd wedyn yn cefnogi pawb i rannu eu barn yn ystod yr adolygiad. Byddwch yn trafod yr hyn sy'n bwysig i'ch plentyn a sut i'w gefnogi orau. Byddwch yn trafod yr hyn sy'n gweithio i chi a'ch plentyn ar hyn o bryd a'r hyn nad yw'n gweithio. Byddwch hefyd yn trafod dyheadau'ch plentyn ar gyfer y dyfodol a'r hyn rydych yn meddwl yr hoffai ei gyflawni.

Ar ddiwedd yr adolygiad byddwch yn trafod y newidiadau yr hoffech eu gweld ac yn creu canlyniadau sy'n seiliedig ar hyn. Byddwch yn cytuno ar dargedau a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i gefnogi'ch plentyn a'i helpu i weithio tuag at gyflawni ei ddyheadau.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl yr adolygiad?**

Ar ôl yr adolygiad bydd yr hwylusydd yn creu Cynllun Gweithredu sy'n seiliedig ar yr hyn a drafodwyd gennych yn yr adolygiad. Bydd gan bawb gyfle i weld yr hyn a fydd yn cael ei wneud i gefnogi'ch plentyn.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n esbonio:

- y gefnogaeth y mae ei hangen ar eich plentyn i ddysgu
- pwy fydd yn sicrhau bod eich plentyn yn cael y gefnogaeth hon
- pryd, ble a pha mor aml bydd eich plentyn yn cael y gefnogaeth hon
- sut caiff cynnydd eich plentyn ei fonitro.


Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Cefnogaeth ar gyfer Dysgu
Rhif ffôn: 01639763080
E-bost: learning.support@npt.gov.uk

Tîm Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol
Rhif ffôn: 01639763158
E-bost: ALNST@npt.gov.uk


Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y person



## Gwybodaeth i Deuluoedd

## Diwygio ADY

Mae Llywodraeth Cymru am newid disgwyliadau, profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. I wneud hyn, mae wedi datblygu'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a fydd yn creu system newydd i gefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed.

Bydd y system newydd yn:

- sicrhau y caiff pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol ei gefnogi i fynd i'r afael â rhwystrau at ddysgu a'i fod yn gallu cyflawni ei botensial llawn
- gwella'r broses o gynllunio a datblygu cefnogaeth i ddysgwyr rhwng 0 a 25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol
- rhoi anghenion, barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr wrth wraidd y broses
- canolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ac effeithiol ar waith sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad dymunol

## Beth yw adolygiad sy'n canolbwyntio ar y person?

Cyfarfodydd sy'n ceisio sicrhau bod datganiad/CDU y plentyn/person ifanc yn addas yw adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod



plentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y gefnogaeth gywir er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyheadau ar gyfer y dyfodol. Maent yn rhoi anghenion, barn a dymuniadau'r plentyn/person ifanc wrth wraidd yr adolygiad.

## Pwy fydd yn yr adolygiad?

Gall y plentyn/person ifanc wahodd pobl sy'n bwysig iddynt megis aelodau o'r teulu a ffrindiau. Hefyd bydd rhaid i rai pobl eraill fod yn bresennol. Gall y bobl hyn gynnwys gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Efallai bydd llawer o bobl yn bresennol neu efallai mai chi, eich plentyn a rhywun o'r ysgol yn unig fydd yn bresennol.

## Ble a phryd y cynhelir yr adolygiad?

Bydd o leiaf un adolygiad y flwyddyn, a'r ysgol fydd yn ei drefnu. Cynhelir yr adolygiad yn yr ysgol fel arfer. Bydd yr amser a'r dyddiad yn addas i chi a'ch plentyn.

## Sut gallwch chi baratoi ar gyfer yr adolygiad?

Gellir defnyddio'r daflen hon i'ch helpu i baratoi ar gyfer yr adolygiad. Mae yna daflen ar wahân fel y gallwch nodi'r holl bethau yr hoffech eu dweud yn ystod yr adolygiad. Mae hefyd le i chi ysgrifennu unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Os nad ydych yn mynd i'r adolygiad mae'n bwysig eich bod yn mynegi'ch barn o hyd. Gallwch nodi'ch barn ar y daflen a ddarperir i chi a rhoi'r daflen i'r ysgol.

## Beth fydd yn digwydd yn yr adolygiad?

Bydd yr adolygiad mor hamddenol â phosib. Eich plentyn sydd wrth wraidd yr adolygiad felly caiff ei deilwra ar ei gyfer. Gall eich plentyn ddewis y trefniad eistedd, er